

# Pwyllgor Craffu – Polisi ac Adnoddau

## Adroddiad Blynyddol

2021 - 2022

**Scrutiny**  
in Carmarthenshire



[sirgar.llyw.cymru](http://sirgar.llyw.cymru)

Cyngor **Sir Gâr**  
**Carmarthenshire**  
County Council



## Cynnwys

<b>Adran</b>	<b>Eitem</b>	<b>Tudalen</b>
	<b>Rhagair gan y Cadeirydd</b>	<b>2</b>
<b>1</b>	<b>Cyflwyniad</b>	<b>3</b>
<b>2</b>	<b>Trosolwg o waith y Pwyllgor 2021/22</b>	<b>3</b>
<b>3</b>	<b>Gweithgarwch Craffu Arall</b>	<b>7</b>
<b>4</b>	<b>Heriau</b>	<b>7</b>
<b>5</b>	<b>Gwaith yn y Dyfodol</b>	<b>7</b>
<b>6</b>	<b>Cefnogi'r Swyddogaeth Graffu</b>	<b>7</b>
<b>7</b>	<b>Presenoldeb</b>	<b>8</b>

## Rhagair gan y Cadeirydd

Croeso i'r adroddiad blynyddol ar gyfer y Pwyllgor Craffu - Polisi ac Adnoddau ar gyfer blwyddyn ddinesig 2021/2022. Fel Cadeirydd, rwy'n falch o gyflwyno'r adroddiad hwn i chi yn manylu ar y gwaith y mae'r pwyllgor wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi gweld pob un ohonom yn parhau i fyw o dan gyfyngiadau Covid er bod pethau'n dechrau lleddfu erbyn diwedd blwyddyn y cyngor.



Eleni eto roeddem dal yn destun i Reoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) (Diwygio) 2020 a ddaeth i rym ar 22 Ebrill 2020 gan ganiatáu i'r Awdurdod wneud trefniadau i gynnal cyfarfodydd o bell. Ar ôl bod yn defnyddio meddalwedd fideo-gynadledda o bell ers 2020, mae aelodau'r cyngor wedi dod yn gyfarwydd iawn â chymryd rhan fel hyn, sydd wedi caniatáu inni barhau i fonitro safonau ac adroddiadau rheolaidd, yn ogystal â pholisïau a strategaethau newydd sy'n cael eu cyflwyno gan y Cyngor Sir.

Gyda'r pandemig yn parhau yn ein plith, aeth y pwyllgor ati i adolygu polisi brechu'r cyngor, rhywbeth a oedd wrth gwrs yn unigryw i'r cyfnod yma. Gyda thechnoleg yn chwarae rôl amlwg roedd gennym sawl strategaeth ac adroddiad i'w hadolygu o ran y maes polisi hwn. Roedd ein rôl yn monitro absenoldeb salwch hefyd wedi parhau yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Rwy'n edrych ymlaen unwaith eto at yr her o gadeirio'r Pwyllgor hwn yn ystod y flwyddyn sydd i ddod gyda chymorth fy Is-gadeirydd a gweddill y Pwyllgor a gobeithio y cawn effaith gadarnhaol ar y canlyniadau ar gyfer trigolion Sir Gaerfyrddin. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gydag uwch-reolwyr a staff y Cyngor i sicrhau bod y flwyddyn sydd o'n blaenau yn un gynhyrchiol.

Un o agweddau mwyaf cadarnhaol y flwyddyn ddiwethaf fu'r cynnydd yn aelodau'r cyhoedd yn dangos diddordeb yn y cyfarfodydd, nid yn unig wrth wyllo ond wrth gymryd rhan mewn cyfarfodydd craffu. Rydym wedi cael cwestiynau ac ymyriadau rheolaidd gan ddefnyddwyr y we ac wedi llwyddo i ddelio â nhw mewn amser real drwy ein systemau. Er bydd y cyngor yn dychwelyd at ddefnyddio dull mwy hybrid o gynnal cyfarfodydd, gyda rhai aelodau yn swyddfeydd y cyngor ac eraill yn defnyddio technoleg o'u cartrefi neu leoliad gwaith, rwy'n mawr obeithio bydd y rhyngweithio rhyngom fel cynghorwyr a'r cyhoedd yn parhau.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i holl aelodau'r Pwyllgor a'r swyddogion am eu cyfraniadau a'u hymroddiad yn ystod 2021/22.

**Y Cynghorydd Giles Morgan**  
**Cadeirydd y Pwyllgor Craffu - Polisi ac Adnoddau**

## 1. Cyflwyniad

Mae Erthygl 6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl Bwyllgorau Craffu "*baratoi adroddiad blynyddol sy'n egluro gweithgareddau'r Pwyllgor dros y flwyddyn flaenorol.*"

Prif nod yr adroddiad yw pwysleisio'r gwaith sydd wedi'i wneud gan y Pwyllgor Craffu - Polisi ac Adnoddau yn ystod 2021/22. Mae'n amlinellu gwaith posibl y Pwyllgor yn y dyfodol. Mae'n bosibl hefyd y bydd y ddogfen yn hwyluso trafodaethau am eitemau eraill a allai gael eu cynnwys mewn rhaglenni gwaith yn y dyfodol.

Cadeirir y Pwyllgor gan y Cyngorydd Giles Morgan ac mae'n cynnwys 13 o Aelodau Etholedig. Darperir cymorth i'r Panel gan y Tîm Gwasanaethau Democrataidd a swyddogion eraill y Cyngor pan fo angen.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o waith y Pwyllgor Craffu - Polisi ac Adnoddau yn ystod blwyddyn y cyngor 2021/22. Mae'n caniatáu i Aelodau ystyried llwyddiannau'r flwyddyn a nodi beth a weithiodd yn dda ac ymhle y gellid gwneud gwelliannau. Mae'r dadansoddiad hwn yn hanfodol i ddatblygu'r broses graffu.

## 2. Trosolwg o waith y Pwyllgor 2021/22

### 2.1 Nifer y Cyfarfodydd

Cynhaliodd y Pwyllgor Craffu 7 cyfarfod ym Mlwyddyn Ddinesig 2021/22.

### 2.2 Y Flaenraglen Waith

Mae'r Pwyllgor Craffu yn datblygu ei Flaenraglen Waith ei hun ar gyfer 2021/22 a gafodd ei gadarnhau gan y Pwyllgor ar 30 Ebrill 2021.

Roedd y Flaenraglen Waith yn seiliedig yn bennaf ar y meysydd allweddol a nodwyd fel amcanion yn Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor 2018-23 ynghyd ag eitemau safonol megis adroddiadau monitro perfformiad a chyllideb, adroddiadau monitro cynlluniau gweithredu a cheisiadau penodol gan y pwyllgor craffu ei hun. Gofynnwyd hefyd am adroddiadau ychwanegol gan y Pwyllgor Craffu yn ystod y flwyddyn a newidiwyd y Flaenraglen Waith yn unol â hynny.

Drwy ddatblygu'r cysyniad o Flaenraglen Waith a'r broses ar gyfer cytuno arni, mae modd i bob pwyllgor craffu benderfynu ar ei agenda waith ei hun. Mae manteision y dull hwn o weithio wedi arwain at wella'r drafodaeth a'r cyfraniadau yn ystod cyfarfodydd y pwyllgorau craffu.

Roedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi lle blaenllaw i gynaliadwyedd hirdymor o ran y modd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu dylunio a'u cyflwyno ac mae'n rhoi pwyslais ar gyrrff cyhoeddus i weithio mewn partneriaeth â'i gilydd a'r cyhoedd er mwyn atal a mynd i'r afael â phroblemau. Sefydlodd y Ddeddf Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer pob Awdurdod Lleol yng Nghymru.

Er mwyn sicrhau bod y byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn atebol yn ddemocrataidd, roedd gofyniad ar Gynghorau i ddynodi pwyllgor trosolwg a chraffu i graffu ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Fel Pwyllgor Craffu dynodedig y Cyngor i'r perwyl hwn, mae'r Pwyllgor Craffu - Polisi ac Adnoddau wedi parhau â'i rôl o ran craffu ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'i ddal i gyfrif ynghylch ei berfformiad o ran cyflawni amcanion y Cynllun Llesiant Lleol. Yn hyn o beth cafodd y Pwyllgor gofnodion cyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn rheolaidd.

Bydd yr adrannau canlynol yn rhoi cipolwg ar brif feysydd gwaith y Pwyllgor.

### 2.3 Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf

Cafodd y Pwyllgor adroddiadau chwarterol am y cyllidebau cyfalaf a refeniw adrannol a chorfforaethol. Galluogai'r adroddiadau hyn yr aelodau i fonitro'r gwariant ym mhob maes a'r cynnydd a wnaed o ran unrhyw waith cyfalaf.

Yn ogystal â monitro'r gyllideb bresennol, ymgynghorwyd â'r Pwyllgor hefyd ynghylch Strategaeth Cyllideb Refeniw 2022/23 i 2024/25. Roedd yr adroddiad yn rhoi'r cynigion presennol i'r Pwyllgor ynghylch y Gyllideb Refeniw ar gyfer 2022/23, ynghyd â ffigurau dangosol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2023/24 a 2024/25.

Derbyniodd yr Aelodau'r adroddiad a chymeradwyo'r Crynhoad Taliadau.

Ymgynghorwyd â'r Pwyllgor ynglŷn â'r Rhaglen Gyfalaf 5 Mlynedd 2022/23 - 2026/27.

#### Canlyniad:

Cymeradwyodd y Cyngor Sir y Strategaeth Cyllideb Refeniw a'r Rhaglen Gyfalaf 5 Mlynedd.

### 2.4 Adroddiad Chwarterol ynghylch Rheoli'r Trysorlys a Dangosyddion Darbodaeth

Cafodd y Pwyllgor y newyddion diweddaraf a oedd yn nodi'r gweithgareddau a oedd yn rhan o Swyddogaeth Rheoli'r Trysorlys, yn unol â'r Polisi a'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a gymeradwywyd gan y Cyngor Sir ar 3 Mawrth 2021.

### 2.5 Adroddiadau Monitro Perfformiad Adrannol a Chorfforaethol 2020/21

Un o rolau pennaf y Pwyllgorau Craffu yw monitro perfformiad y gwasanaethau a'r swyddogaethau a ddaw o fewn ei gylch gwaith. Gwnânt y gwaith hwn yn bennaf drwy ystyried adroddiadau monitro perfformiad chwe-misol ac adroddiadau monitro cynlluniau gweithredu amrywiol. Mae adroddiad monitro perfformiad yn rhoi darlun cytbwys o berfformiad ar draws y meysydd gwasanaeth perthnasol. Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr adroddiadau perfformiad ar gyfer ei gylch gwaith yn ei gyfarfodydd ym mis Hydref 2021 ac ym mis Ionawr 2022.

### 2.6 Monitro Absenoldeb Salwch

Ym mis Gorffennaf 2021, bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad Monitro Absenoldeb Salwch diwedd blwyddyn ar gyfer 2020/21 a oedd yn manylu ar ddata absenoldeb salwch adrannau ac yn cynnwys data monitro absenoldeb salwch ar gyfer y cyfnod cronus a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 ynghyd â throsolwg o'r cymorth llesiant gweithwyr a ddarparwyd. Ym mis Chwefror 2022 bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad Monitro Absenoldeb Salwch hanner blwyddyn ar gyfer 2021/22.

## 2.7 Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin

Ym mis Mehefin, Hydref a Rhagfyr 2021 a mis Mawrth 2022, bu i'r Pwyllgor, fel y pwyllgor craffu dynodedig a benodwyd i graffu ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ystyried cofnodion cyfarfodydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin. Ym Mis Mehefin 2021 derbyniodd y Pwyllgor hefyd adroddiad Blynyddol Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin, gafodd ei gyhoeddi gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin ar gyfer y cyfnod 2020-2021.

Ym mis Medi 2021, derbyniodd y Pwyllgor Aseiad Drafft o Lesiant Lleol Sir Gaerfyrddin a gymeradwywyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin ar 24 Tachwedd, 2021 ar gyfer cynnal ymgynghoriad â'r cyhoedd a rhanddeiliaid.

## 2.8 Adroddiad Blynyddol 2020/21 ar yr Iaith Gymraeg

Ym mis Gorffennaf 2021 bu'r Pwyllgor yn ystyried yr Adroddiad Blynyddol o ran yr iaith Gymraeg a chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn ystod 2020-21. Roedd yr Adroddiad wedi cael ei lunio er mwyn cydymffurfio â threfniadau monitro Comisiynydd y Gymraeg.

## 2.9 Adroddiad Blynyddol Strategaeth Trawsnewid Digidol a Strategaeth Technoleg Ddigidol 2021

Ym mis Gorffennaf 2021, bu'r Pwyllgor yn ystyried a chymeradwyo'r Strategaeth Trawsnewid Digidol ac Adroddiad Blynyddol Strategaeth Technoleg Ddigidol 2021 a roddodd ddiweddariad ar ddwy o dair Strategaeth Ddigidol Cyngor Sir Gaerfyrddin.

## 2.10 Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-21 a Chynllun Gweithredu 2021-24

Ym mis Gorffennaf 2021, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i Adroddiad Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-21, ynghyd â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer 2021-24 a oedd yn manylu sut oedd y Cyngor wedi gweithredu ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol ac wedi cyflawni ei ddyletswyddau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'r Dyletswyddau Penodol i Gymru..

## 2.11 Polisi Teledu Cylch Cyfyng y Cyngor

Ym mis Mehefin 2021, roedd y Pwyllgor wedi cymeradwyo Polisi Teledu Cylch Cyfyng y Cyngor ynghylch systemau teledu cylch cyfyng sy'n eiddo i'r Cyngor mewn manau cyhoeddus. Byddai'r polisi yn sicrhau defnydd a rheolaeth y Cyngor o'i systemau camera teledu cylch cyfyng mewn manau cyhoeddus a'i fod yn cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012.

## 2.12 Polisi Trin Data Personol

Ym mis Gorffennaf 2021, cymeradwyodd y Pwyllgor y 'Polisi Trin Data Personol' arfaethedig yn lle'r 'Polisi Trin Gwybodaeth Personol' a'r 'Polisi ynghylch Gweithdrefnau a Rhoi Gwybod am Achosion o Dorri Rheolau ac Ymateb Iddynt' a oedd wedi mynd y tu hwnt i'w dyddiadau adolygu ac roedd angen eu diweddarau i

adlewyrchu newidiadau mewn arferion gwaith, defnydd newydd o Dechnoleg Gwybodaeth a phenderfyniadau a chanllawiau newydd a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

### [2.13 Strategaeth Ddigidol ar gyfer Ysgolion - Adroddiad Blynyddol 2021](#)

Ym mis Hydref 2021 roedd y Pwyllgor wedi cymeradwyo'r Strategaeth Ddigidol ar gyfer Ysgolion - Adroddiad Blynyddol 2021. Mae'r Strategaeth yn nodi'r weledigaeth ar gyfer darparu Gwasanaethau TGCh i Ysgolion ar draws Sir Gaerfyrddin.

### [2.14 Polisi Brechu](#)

Ym mis Hydref 2021, bu'r Pwyllgor yn ystyried polisi brechu newydd arfaethedig yr Awdurdod ar gyfer ei staff a oedd yn nodi'n glir y dull gan yr Awdurdod o frechu a'r materion gweithlu ategol a oedd yn gysylltiedig.

### [2.15 - Polisi Cyflogaeth Foesebol mewn Cadwyni Cyflenwi a Datganiad Caethwasiaeth Fodern, Cyflogaeth Foesebol mewn Cadwyni Cyflenwi](#)

Ym mis Hydref 2021 roedd y Pwyllgor wedi derbyn Polisi Cyflogaeth Foesebol mewn Cadwyni Cyflenwi a Datganiad Caethwasiaeth Fodern, Cyflogaeth Foesebol mewn Cadwyni Cyflenwi.

### [2.16 Cynlluniau Busnes Adrannol](#)

Ym mis Chwefror 2022 bu'r Pwyllgor yn ystyried Cynlluniau Busnes Adran y Prif Weithredwr a'r Adran Gwasanaethau Corfforaethol 2022-2023 a oedd yn amlinellu blaenoriaethau'r adrannau a sut yr oedd yn cefnogi'r Pum Ffordd o Weithio a 7 nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ym mis Mawrth 2022, bu'r Pwyllgor hefyd yn ystyried darnau o Gynllun Busnes Adran yr Amgylchedd 2022-2023 yn ymwneud â'r Is-adran Eiddo a oedd yn berthnasol i faes gorchwyl y Pwyllgor.

### [2.17 Strategaeth Ddigidol ar gyfer Ysgolion a Strategaeth Technoleg Ddigidol 2022-2025](#)

Ym mis Chwefror 2022 roedd y Pwyllgor wedi cymeradwyo cynnwys y Strategaeth Ddigidol ar gyfer Ysgolion a'r Strategaeth Technoleg Ddigidol 2022-2025. Roedd y strategaethau wedi'u diwygio a'u diweddarau i nodi blaenoriaethau strategol y Cyngor i ategu'r gwaith o ddarparu dysgu digidol dros y 3 blynedd nesaf, ynghyd â chyfeiriad y technolegau digidol a fyddai'n cael eu haddasu gan y Cyngor i ategu'r holl wasanaethau digidol.

### [2.18 Polisi ynghylch Cam-Drin Domestig, Trais Domestig A Thrais Rhywiol](#)

Ym mis Chwefror 2022 cymeradwyodd y Pwyllgor y Polisi Cam-drin Domestig, Trais Domestig a Thrais Rhywiol i'r Cyngor a oedd yn diwygio'r Polisi Cam-drin Domestig

a Thrais Rhywiol a fabwysiadwyd yn flaenorol yn unol â nodau ac amcanion yr Awdurdod a'r ddeddfwriaeth gyffredin.

### 2.19 Datganiad Sefyllfa Rhaglen TIC - Trawsnewid i Wneud Cynnydd

Ym mis Chwefror 2022 Roedd y Pwyllgor wedi derbyn adroddiad a oedd yn manylu ar y cynnydd o ran gweithredu blaenoriaethau allweddol y Rhaglen TIC bresennol a'r camau allweddol i'w cymryd y flwyddyn nesaf fel rhan o Gynllun Busnes TIC.

## 3. Gweithgarwch Craffu Arall

### 3.1 Gorchwyl a Gorffen

Ni wnaeth y Pwyllgor gynnal adolygiad gorchwyl a gorffen yn ystod 2021/22.

### 3.2 Ymweliadau Safle

Nid oedd y Pwyllgor wedi cynnal unrhyw ymweliadau safle yn ystod 2021/22.

### 3.3 Sesiynau Datblygu

Cynhaliwyd y sesiynau datblygu/seminarau canlynol i'r aelodau yn ystod 2021/22:

- arddangosiad rhithwir o'r dangosfwrdd ynghylch niferoedd staff

Yn ogystal â'r uchod, cynhaliwyd sawl seminar cyllideb yn ystod mis Ionawr fel rhan o broses ymgynghori'r Cyngor ar Gyllideb Refeniw 2022/23 a'r rhaglen gyfalaf 5 mlynedd.

## 4. Heriau

Wrth ymgymryd â'i waith mae'r Pwyllgor wedi wynebu sawl her, mae'r rhain yn cynnwys eitemau na chafwyd adroddiadau yn eu cylch yn unol â'r Flaenraglen Waith a'r oedi wrth dderbyn adroddiadau ariannol, er bod hyn bellach yn cael sylw yn unol â'r hyn a ganiateir gan y gweithdrefnau ariannol.

## 5. Gwaith yn y Dyfodol

Mae'r Pwyllgor wedi gwneud cynnydd sylweddol a bydd yn parhau i ganolbwyntio ar bynciau lle bydd cyfraniadau'r Aelodau'n arwain at ganlyniadau cadarnhaol i ysgogi gwelliannau yn y gwasanaeth. Bydd gwaith y Pwyllgor ar gyfer y dyfodol yn cael ei nodi fel rhan o'i Flaenraglen Waith a bydd yn parhau i gael ei fonitro drwy gydol y flwyddyn sydd i ddod.

## 6. Cefnogi'r Swyddogaeth Graffu

Mae'r cymorth a roddir i swyddogaeth graffu Cyngor Sir Caerfyrddin yn cael ei ddarparu gan yr Uned Gwasanaethau Democrataidd yn yr Is-adran Gweinyddiaeth a'r Gyfraith yn Adran y Prif Weithredwr. Mae hyn yn cynnwys:



- Darparu cymorth a chyngor cyfansoddiadol i Bwyllgorau Craffu'r Cyngor ac i aelodau'r Pwyllgorau hynny yn ogystal â llunio cofnodion eu cyfarfodydd a sicrhau bod materion sy'n codi o'r cyfarfodydd hynny yn cael eu gweithredu
- Rhoi cymorth a chyngor mewn perthynas â swyddogaethau Pwyllgorau Craffu'r Cyngor i aelodau gweithredol ac anweithredol y Cyngor a'i swyddogion;
- Rheoli datblygiad strategol y swyddogaeth Graffu yn Sir Gaerfyrddin trwy ymwneud â rhwydweithiau a mentrau Craffu cenedlaethol a rhanbarthol, cefnogi Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Fforwm Craffu, a Fforwm Bwrdd Gweithredol y Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion Craffu;
- Cyngori a chefnogi'r gwaith o weithredu gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 wrth i ganllawiau gael eu cyhoeddi;
- Rheoli'r gwaith o gydlynu a datblygu blaenraglen waith y Pwyllgor Craffu ar y cyd ag aelodau'r Pwyllgor;
- Rheoli a chydlynu gwaith adolygu'r swyddogaeth Graffu, gan gynnwys gweithredu grwpiau gorchwyl a gorffen ym maes craffu, awdurdodi adroddiadau ar y cyd â'r grwpiau, a chynorthwyo i weithredu a monitro'r adolygiadau a gwblhawyd;
- Rheoli rhaglen datblygu aelodau'r Pwyllgor Craffu
- Anfon yr agendâu ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu o leiaf 4 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod.

I gael rhagor o wybodaeth am graffu yn Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys rhaglenni gwaith, adroddiadau gorchwyl a gorffen ac adroddiadau blynyddol, ewch i wefan y Cyngor Sir: [www.sirgar.llyw.cymru/craffu](http://www.sirgar.llyw.cymru/craffu)

I gysylltu â'r Uned Gwasanaethau Democrataidd, ffoniwch 01267 224028 neu anfonwch neges e-bost at [craffu@sirgar.gov.uk](mailto:craffu@sirgar.gov.uk)

## 7. Presenoldeb

Mae presenoldeb Aelodau'r Pwyllgor Craffu - Polisi ac Adnoddau yn ystod y flwyddyn 2021/22 yn cael ei ddangos yn y tabl isod. Cynhaliwyd cyfanswm o 7 cyfarfod rhithwir rhwng mis Mai 2021 a mis Ebrill 2022.

Aelod y Pwyllgor Craffu	Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd allan o 7 posibl	%
Y Cyng. S.M. Allen	6	87%
Y Cyng. K. Broom	7	100%
Y Cyng. D. Cundy	6	87%
Y Cyng. H. Davies	6	87%
Y Cyng. T.A.J. Davies o 20/10/21	3 [allan o 5]	60%
Y Cyng. W.R.A. Davies hyd at 21/7/21	1 [allan o 2]	50%

Y Cyng. J. Edmunds	6	85%
Y Cyng. J. K. Howell	7	100%
Y Cyng. G.H. John	7	100%
Y Cyng. A.C. Jones	6	85%
Y Cyng. K. Madge	7	100%
Y Cyng. A.G. Morgan	7	100%
Y Cyng. J. G. Prosser	4	57%
Y Cyng. D.E. Williams	7	100%
<b>Dirprwyon</b>	<b>Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd</b>	
Y Cyng. D. Jones	1	
<b>AELODAU'R CABINET</b>	<b>Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd</b>	
Y Cyng. C.A. Davies	5	
Y Cyng. G. Davies	1	
Y Cyng. E. Dole	4	
Y Cyng. H.A.L. Evans	1	
Y Cyng. L.D. Evans	1	
Y Cyng. P.M. Hughes	1	
Y Cyng. P. Hughes-Griffiths	1	
Y Cyng. D.M. Jenkins	6	
Y Cyng. M. Stephens (Bu farw'r Cynghorydd Stephens ar 9/1/22)	3	
Y Cyng. J. Tremlett	1	

## 8. Rhestr Termau

TIC - Trawsnewid i Wneud Cynnydd